21AIN O FAI

# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol




# Wythnos nesaf

### Eisteddfod yr Urdd

Hoffem ddymuno pob hwyl a llwyddiant i bawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Ynys Môn, yr wythnos nesaf. Eleni, mae gennym 14 o gystadlaethau yn cynrychioli Gorllewin Caerdydd a'r Fro, camp arbennig ac yn record i ni yma yn Nhreganna! Rydym yn dymuno'n dda i'r canlynol:

- **Mabli** – Unawd Cerdd Dant Bl. 3–4.
  **Heti** – Llefaru Bl. 3–4
  **Lexi** – Unawd Bl. 5–6
  **Sara** – Alaw Werin Bl. 6 ac iau
  **Nansi a Sara** – Deuawd Bl. 6 ac iau
  **Nansi a Sara** – Deuawd Cerdd Dant Bl. 6 ac iau
  **Grŵp Cerddoriaeth Greadigol** Bl 4
  **Grŵp Dawnsio Gwerin** Bl. 5–6
  **Parti Llefaru**
  **Cân Actol**
  **Ymgom**
  **Parti Unsain**
  **Parti Cerdd Dant**
  **Cogurdd** - Betsan

Diolch o galon i'r plant am eu brwdfrydedd, eu dyfalbarhad a'u dygnwch dros y misoedd diwethaf. Rydyn ni mor falch o bob un ohonoch.

Diolch hefyd i holl staff Ysgol Treganna sydd wedi bod wrthi'n hyfforddi ac yn cefnogi'r holl dalent arbennig yma. Rydym wir yn gwerthfawrogi eich gwaith caled a'ch ymroddiad.

Mwynhewch yr Eisteddfod yr wythnos nesaf a phob lwc i bawb!

## Calendr

**Ysgol i bawb**
**1.6.26**

# Y Nyth

Deall Prosesu Synhwyraidd (Gweithdy i Rieni)

Dewch i ddysgu mwy am brosesu synhwyraidd a sut mae'n effeithio ar emosiynau, ymddygiad, a dysgu plant. Byddwn hefyd yn rhannu strategaethau ymarferol i gefnogi'ch plentyn.

**Pryd?** Dydd Gwener, 12fed o Fehefin am 9.30yb
**Cofrestrwch yma:** Deall Prosesu Synhwyraidd

# Clwb Cymer Ofal

Diolch i Glwb Cymer Ofal am ennill grant o'r Cyngor a helpu'r ysgol i drwsio'r fframiau dringo. Mae pawb wrth eu bodd gyda'r fframiau dringo newydd!

# Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau enfawr i griw Cwis Llyfrau blwyddyn 6 am ennill cystadleuaeth Ysgolion Cymraeg Caerdydd. Tipyn o gamp! Bydd y criw nawr yn cynrychioli Caerdydd yn y rownd derfynol yn Aberystwyth. Diolch yn fawr i Mr Evans am hyfforddi'r tîm.

# Pêl droed blwyddyn 4

Da iawn i'r 6 tîm o flwyddyn 4 wnaeth gynrychioli Ysgol Treganna yn nhwrnamaint pêl droed yr Urdd heddiw. Roedd eich ymddygiad yn wych ac yn glod i'r ysgol. Diolch enfawr i'r staff a wnaeth hyfforddi'r timau.

**Patrwm Iaith yr Wythnos ar ol hanner tymor**

**Patrwm iaith wythnos nesaf**
Ddoe/Neithiwr/Echddoe
(wrth siarad am y gwyliau)

**Her**
Ar ddydd…byddaf yn…

**Testun trafod yr wythnos**
Amser rhydd yn yr awyr agored neu yn y tŷ?

**Cân yr wythnos**
Ti neud fi symud - Band Pres Llareggub & Aleighcia Scott

**Idiom yr wythnos**
Â'i ben yn ei blu